# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-12-09)

**Dyddiad: 24 Mehefin 2009**
**Amser: 9:00 – 11:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Claire Bennett, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Peter Jones, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Olwen Minney, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Justin Jacobs, Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Arthur Philp, Cymdeithas Yswirwyr Prydain

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams a Karen Sinclair. Roedd Darren Millar yn dirprwyo ar ran Brynle Williams.

### Eitem 2: Y Mesur Drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dwr: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson a'i swyddogion i'r cyfarfod a gwahoddodd hi i roi sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i egluro'r sefyllfa o ran a oedd unrhyw swyddogaethau Seneddol yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Eitem 3: Ymchwiliad i lifogydd: sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Justin Jacobs ac Arthur Philp i'r cyfarfod. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r tystion.

### Eitem 4: Ymchwiliad i fynediad i ddwr mewndirol: trafod cwmpas ac amcanion yr ymchwiliad

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur cwmpasu.

### Eitem 5: Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor flaenraglen waith y Pwyllgor a'r ymatebion ysgrifenedig i'r Mesur Drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dwr.